# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12/01/2011

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

### Blaenoriaethau

***10. Nerys Evans:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn. OAQ(3)1253(BB)*

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Mae rhaglen 'Cymru'n Un' yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer oes y Cynulliad hwn, a lluniwyd ein cynlluniau gwariant yn unol â'r blaenoriaethau hynny. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12 yn nodi sut y byddwn yn parhau i gyflawni ein blaenoriaethau er gwaethaf y toriadau yng ngwariant Llywodraeth y DU.

### Blaenoriaethau

***11. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1284(BB)*

**Jane Hutt:** Mae manylion ein cynlluniau gwariant i'w cael yng nghyllideb ddrafft 2010-11. Fel yn achos pob cyllideb yn ystod y trydydd Cynulliad, mae'r gyllideb hon yn trosi blaenoriaethau ac ymrwymiadau 'Cymru'n Un' yn set gynhwysfawr, y gellir ei chyflawni, o gynlluniau gwariant.

### Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

***12. Irene James:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllid cyffredinol a ddarperir ar gyfer y portffolio Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes. OAQ(3)1262(BB)*

**Jane Hutt:** Mae cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2011-12 yn cynnwys dyraniad gwerth mwy na £1.8 biliwn i'r portffolio Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ(3)1256(BB) yn ôl*

### Portffolio Cyfiawnder a Llywodraeth Leol

***14. Jenny Randerson:*** *A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllid ychwanegol i'r portffolio Cyfiawnder a Llywodraeth Leol er mwyn darparu cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru i fynd i'r afael â thywydd eithafol. OAQ(3)1273(BB)*

**Jane Hutt:** Yr wyf yn monitro'n fisol y gwariant ym mhob un o feysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hynny'n cynnwys asesu risgiau a phwysau sy'n dod i'r amlwg. Yn y lle cyntaf, cyfrifoldeb y Gweinidog perthnasol yw ymateb i'r pwysau. Fodd bynnag, yr wyf yn dal i gadw golwg gyffredinol ar faterion, ac yn trafod, yn ôl yr angen, sut i fynd i'r afael â phwysau.

### Cyfrifiad

***15. William Graham:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ar gyfer y Cyfrifiad. OAQ(3)1285(BB)*

**Jane Hutt:** Bydd y cyfrifiad yn cael ei gynnal ar 27 Mawrth 2011. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i wneud y trefniadau. Bydd pob aelwyd yng Nghymru yn derbyn holiadur Cymraeg a Saesneg, a bydd modd i aelwydydd lenwi'r cyfrifiad ar-lein am y tro cyntaf erioed.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

### Radio Cymunedol

***9. Bethan Jenkins:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i radio cymunedol yng Nghymru. OAQ(3)1382(HER)*

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Cafodd cronfa radio cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru ei sefydlu i gydnabod a chefnogi cyfraniad gorsafoedd radio cymunedol i'w cymunedau. Mae gorsafoedd perthnasol yn cael eu gwahodd yn awr i gyflwyno cais am gyllid gan y gronfa radio cymunedol—cyllid sy'n cael ei gynnig am y bedwaredd flwyddyn..

### Ansawdd Gwybodaeth i Dwristiaid

***10. David Melding:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y mesurau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd i wella ansawdd gwybodaeth i dwristiaid. OAQ(3)1394(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Mae gan dwristiaid mwy o ddewis nag erioed o ran sut i gael gafael ar wybodaeth ar gyrchfannau a'r hyn y maent yn ei gynnig i dwristiaeth. Mae Croeso Cymru yn cynnal ymchwil ar hyn o bryd i ddisgwyliadau ymwelwyr ar y ddarpariaeth o wybodaeth sydd ar gael i dwristiaid, a sut y dylid ei datblygu yn y dyfodol.

### Digwyddiadau Chwaraeon Allweddol

***11. Alun Davies:*** *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i ddenu digwyddiadau chwaraeon allweddol i Gymru. OAQ(3)1361(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Mae Cymru wedi cynnal yn llwyddiannus lawer o'r prif ddigwyddiadau chwaraeon rhyngwladol, gan gynnwys Cwpan Rygbi'r Byd 1999, Gemau Prawf Cyfres y Lludw 2009 a Chwpan Ryder 2010. Ar 29 Medi 20l0, lansiwyd ein strategaeth digwyddiadau mawr ar gyfer Cymru, y strategaeth gyntaf o'i bath, sy'n nodi sut yr ydym yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwnnw dros y 10 mlynedd nesaf.

### Adeiladau Hanesyddol

***12. Joyce Watson:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i adfer adeiladau hanesyddol. OAQ(3)1357(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Mae fy natganiad cenhadaeth hanesyddol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn pwysleisio mor bwysig yw cyfraniad adeiladau hanesyddol i gynnal naws unigryw Cymru, ac i'n lles. Mae fy swyddogion yn Cadw wedi cynnig grant gwerth dros £2 filiwn yn ystod y flwyddyn diwethaf ar gyfer cynnal gwaith atgyweirio yng Nghymru, gan gynnwys £250,000 i atgyweirio castell Aberteifi.

### Hybu'r Gymraeg

***13. Jenny Randerson:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu'r Gymraeg drwy weithredu Mesur y Gymraeg. OAQ(3)1385(HER)*

**Alun Ffred Jones:** Mae darpariaethau Mesur y Gymraeg yn cydnabod y bydd hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn gyfrifoldeb ar amryw o gyrff. Bydd gan gomisiynydd y Gymraeg ddyletswydd i hyrwyddo'r iaith, fel y bydd gan Lywodraeth y Cynulliad, llywodraeth leol a chyrff eraill a allai gael eu gosod o dan ddyletswydd i wneud hynny.

*Tynnwyd cwestiwn 14 OAQ(3)1379(HER) yn ôl*

### Blaenoriaethau

***15. Nerys Evans:*** *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer gweddill y tymor Cynulliad hwn. OAQ(3)1360(HER) W*

**Alun Ffred Jones:** Yr wyf yn parhau'n ymroddedig i fodloni fy ymrwymiadau o dan raglen 'Cymru'n Un'. Maent yn cynnwys sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg, annog mwy o weithgarwch corfforol er mwyn gwella iechyd, ysgogi cynnydd mewn twristiaeth, drwy gynyddu i'r eithaf werth economaidd ein treftadaeth, a moderneiddio rhwydwaith ein llyfrgelloedd cyhoeddus.